**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet: 10 Ebrill 2018** | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | **25 Ebrill 2018** |

## PWNC

Eitem 6:DYFODOL DARPARIAETH ADDYSG YN NALGYLCH Y BERWYN

## PENDERFYNIAD

Gweithredu ar y cynnig a gyhoeddwyd ar 26 Chwefror 2018 i gau Ysgol Bro Tegid, Ysgol Beuno Sant ac Ysgol y Berwyn, yn nhref Y Bala ar 31 Awst 2019 a sefydlu Campws Dysgu 3-19, Cyfrwng Cymraeg, statws cymunedol, ("Y Campws"), ar safle presennol Ysgol y Berwyn i agor ar 1 Medi 2019.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013, y Cod Trefniadaeth Ysgolion, a phenderfyniad Cabinet 13 Chwefror 2018, cyhoeddwyd rhybydd statudol ar 26 Chwefror i gau Ysgol Bro Tegid, Ysgol Beuno Sant ac Ysgol y Berwyn ar 31 Awst 2019, a sefydlu Campws Dysgu 3-19 cyfrwng Cymraeg, statws cymunedol, ar safle presennol Ysgol y Berwyn i agor ar 1 Medi 2019. Cynhaliwyd cyfnod o wrthwynebu statudol rhwng 26 Chwefror a 26 Mawrth 2018. Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiad yn ystod y cyfnod ac o ganlyniad argymhellwyd i'r Cabinet i gadarnhau'n derfynol y cynnig i gau'r ysgolion.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Derbyniwyd datganiad o fuddiant gan Cyng. Dilwyn Morgan gan fod ei wŷr yn mynychu un o'r ysgolion. Roedd yn fuddiant sy'n rhagfarnu a bu iddo adael y cyfarfod ar gyfer yr eitem.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet: 10 Ebrill 2018** | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | **25 Ebrill 2018** |

## PWNC

Eitem 7:AROLWG O DREFNIADAU ETHOLIADAOL GWYNEDD

## PENDERFYNIAD

Cymeradwywyd ymateb Cyngor Gwynedd i gynigion drafft y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol a gyhoeddwyd yn Ionawr 2018 gyda'r amod ein bod yn cyfhau pwynt 36 yn yr ymatebiad gan bwysleisio amgylchiadau unigryw y wardiau ym Mangor yn sgil mewnlifiad sylweddol y myfyrwyr i Ward Garth a Menai.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Gan fod angen ymateb i ymgynghoriad y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol erbyn 23 Ebrill 2018, mae angen i'r Cabinet, yn unol â phenderfyniad y Cyngor Llawn, gymeradwyo'r ymateb i'r Comisiwn Ffiniau ar sail y cyfarwyddyd  a roddwyd gan y Cyngor.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r holl aelodau ar y cynigion drafft a gyhoeddwyd gan y Comisiwn ac fe gynhaliwyd cyfarfodydd gyda'r aelodau hynny oedd yn dymuno cyflwyno cynlluniau neillog lle roeddent yn ystyried fod angen gwneud hynny. Ymgynghorwyd hefyd a'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet: 10 Ebrill 2018** | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | **25 Ebrill 2018** |

## PWNC

Eitem 8:CYNLLUN GOLEUADAU STRYD

## PENDERFYNIAD

Cymeradwyo ceisio am arian o gronfa Twf Gwyrdd Llywodraeth Cymru er mwyn gwireddu cynllun i newid gweddill goleuadau stryd y Cyngor i dechnoleg LED.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Ers Medi 2018 mae 10,279 o oleuadau stryd y Cyngor wedi newid i dechnoleg LED er mwyn sicrhau gostyngiad mewn allyriadau carbon, lleihau llygredd goleuo a chylfawni arbedion mewn costau ynni. Y bwriad gyda'r cynllun newydd hwn yw i ddefnyddio buddsoddiad o gronfa Twf Gwrdd Llywodraeth Cymru i newid 7778 o oleuadau stryd i dechnoleg LED yn y 3 blynedd rhwng Ebrill 2019 a Mawrth 2022.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet: 10 Ebrill 2018** | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | **25 Ebrill 2018** |

## PWNC

Eitem 9:CYNLLUN GWYNEDD 2018-2023 Adnoddau i'r Cynllun 'Cynyddu Budd Digwyddiadau Mawrion'

## PENDERFYNIAD

i. Ymrwymo £50,000 o Gronfa Trawsffurfio'r Cyngor yn ystod blwyddyn ariannol 2018-19 er mwyn gwireddu'r Cynllun 'Cynyddu Budd Digwyddiadau Mawrion i Wynedd'.
ii. Adolygu cynnydd y weithgaredd ac ymrwymiadau pellach i gefnogi gweddill oes y Cynllun cyn diwedd 2018.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Yn dilyn mabwysiadau Cynllun Gwynedd 2018-2023' gan y Cyngor Llawn ar 8 Mawrth 2018, mae cael y deilliannau gorau ar gyfer cymunedau a busnesau o ddiwgwyddiadau sydd yn cael eu cynnal yng Nghwynedd wedi ei gynnwys o fewn y flaenoriaeth 'Cynyddu Budd Digwyddiadau Mawrion'. Er mwyn sicrhau fod adnoddau ar gael ar gyfer cefnogi'r maes yma bydd angen ymrwymo £50,000.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet: 10 Ebrill 2018** | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | **25 Ebrill 2018** |

## PWNC

Eitem 10:BLAENRAGLEN Y CABINET

## PENDERFYNIAD

Cymeradwyo'r Flaen raglen a gynhwyswyd yn y papurau i'r cyfarfod.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Yn unol ag Adran 14.13 o Gyfansoddiad y Cyngor, bydd y Cabinet yn rhannu ei Flaen Raglen waith am y cyfnod dilynol o chwe mis gyda'r cyhoedd. Bydd y Flaen Raglen yn cael ei chyhoeddi ar wefan y Cyngor.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad